Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Tachwedd

2022

Amser: 08.46 - 10.04

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Lesley Griffiths AS Darren Millar AS Siân Gwenllian AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Yan Thomas (Dirprwy Glerc)
Eraill yn bresennol	Jane Dodds AS David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Helen Carey, Llywodraeth Cymru Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, Head of the Legal Service Richard Thomas, Strategic Transformation

	Tom Jackson, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Nid oes dim newidiadau i fusnes y llywodraeth yr wythnos hon.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.30pm.

Dydd Mercher

Tynnodd y Llywydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- ~~Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24 (30 munud)~~ - *wedi'i dynnu'n ôl a'i aildrefnu ar gyfer 23 Tachwedd*
- Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 22 Tachwedd 2022

- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid: Adroddiad cynnydd a'r camau nesaf (30 munud)

Dydd Mawrth 29 Tachwedd 2022

- Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygio Canlyniadol) 2022 (15 munud)
- Rheoliadau'r Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022 (15 munud)

3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ychwanegiadau canlynol i'r amserlen:

Dydd Mercher 23 Tachwedd 2022

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Chweched Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9 (15 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24 (30 munud) - *aildrefnwyd o 16 Tachwedd*

Ac i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes:

Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2022

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Adroddiad ar weithredu mesurau interim diogelu'r amgylchedd (30 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Cyfraith Mark Allen – Diogelwch dŵr ac atal boddi (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a gyflwynwyd a chytunodd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 23 Tachwedd:

Jenny Rathbone

NNDM8130

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) cyhoeddi adroddiad Gyda'n Gilydd drwy Adegau Anodd gan MIND Cymru;

b) bod gwytnwch cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl da.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol i adeiladu cymunedau gwydn drwy:

(i) hyrwyddo cyfalaf cymdeithasol;

(ii) buddsoddi mewn asedau cymunedol;

(iii) mynd i'r afael â rhwystrau sy'n wynebu rhai grwpiau;

b) cynnwys y rôl a chwaraeir gan asedau a rhwydweithiau cymunedol mewn unrhyw strategaeth iechyd meddwl yn y dyfodol.

Gyda'n gilydd drwy Adegau Anodd

4 Deddfwriaeth

4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Diogelwch Ar-lein at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 16 Chwefror 2023.

5 Busnes y Senedd

5.1 Effaith Aelod yn gadael grŵp gwleidyddol ar gynrychiolaeth mewn Pwyllgorau a'r amser a neilltuir i wrthbleidiau yn y Cyfarfod Llawn

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes effaith y ffaith nad yw Rhys ab Owen bellach yn aelod o grŵp Plaid Cymru yn y Senedd ar bwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid gwahodd grŵp Plaid Cymru i lenwi'r swyddi gwag sydd wedi codi ar bwyllgorau, ac i gynnig bod y Senedd yn cytuno ar yr enwebiadau canlynol:

- Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Peredur Owen Griffiths;
- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus - Mabon ap Gwynfor;
- Pwyllgor y Llywydd - Llyr Gruffydd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i gynnig lle i Rhys ab Owen ar y Pwyllgor Deisebau, yn amodol ar gytundeb y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â gwneud unrhyw newidiadau pellach i aelodaeth a chadeiryddiaeth pwyllgorau, na'r dyraniad amser yn y Cyfarfod Llawn ar hyn o bryd.

6 Diwygio'r Senedd

6.1 Argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd: Cymorth ar gyfer penderfyniad y Pwyllgor Busnes

1. Maint Llywodraeth Cymru mewn Senedd fwy (argymhelliad 4)

Trafododd y Pwyllgor Busnes y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd, mewn egwyddor, i ddod i'r casgliad y dylai deddfwriaeth Ddiwygio'r Senedd ddiwygio'r darpariaethau statudol presennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarparu ar gyfer terfyn gwahanol ar y nifer o Weinidogion Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd mewn cyfarfod dilynol at drafodaeth bellach am lefel y trothwy o ran isafswm a/neu uchafswm, ac a ddylai'r ddeddfwriaeth gynnwys ystod ar gyfer y nifer o Weinidogion Cymru.

2. Nifer y Dirprwy Lywyddion mewn Senedd fwy

Daeth Pwyllgor Busnes i'r casgliad y dylai deddfwriaeth Ddiwygio'r Senedd ddiwygio'r darpariaethau statudol presennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarparu ar gyfer terfyn o ddau Ddirprwy Lywydd, yn hytrach nag un, fel sydd ar hyn o bryd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd at drafodaeth bellach am sut y dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol bod cydbwysedd gwleidyddol rhwng y Llywydd a'r dirprwyon, a pha deitlau a ddefnyddir ar gyfer y swyddi hynny yn y ddeddfwriaeth.

3. Y nifer o Gomisiynwyr y Senedd mewn Senedd fwy

Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad na ddylai fod unrhyw newid i'r darpariaethau statudol presennol o ran y nifer o Gomisiynwyr y Senedd.

4. Y canlyniadau pe bai Aelod yn newid eu plaid wleidyddol pe bai wedi eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig

Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad na fyddai'n argymell y dylai deddfwriaeth Ddiwygio'r Senedd gyflwyno canlyniadau deddfwriaethol sy'n deillio o fod Aelod o'r Senedd yn newid eu plaid wleidyddol rhwng etholiadau. Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i fecanweithiau mewnol y Senedd sy'n ymwneud ag aelodaeth grŵp wrth adolygu Rheolau Sefydlog cyn tymor y Senedd nesaf.

6.2 Papur cefndir: nifer y deiliaid swyddi

Nododd y Pwyllgor y papur.

6.3 Papur cefndir: canlyniadau pe bai Aelod yn newid plaid wleidyddol.

Nododd y Pwyllgor y papur.